# GWEITHDY CYLCH GORCHWYL

## Eglurhad

Drwy ddilyn y canllawiau yn yr adnodd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Grwpiau Llywio a'r adnodd Datblygu Gweledigaeth a Siarter Fwyd, gobeithio y byddwch wedi datblygu syniad clir o strwythur a swyddogaeth eich Partneriaeth Fwyd. Nawr gallwch chi ddechrau trafod Cylch Gorchwyl - eich cytundeb ar y cyd ar reolau, gweithdrefnau, prosesau a'r ffordd rydych chi am ymddwyn tuag at eich gilydd.

Mae digon o enghreifftiau o Gylchoedd Gorchwyl Partneriaethau Bwyd ar wefan SFP. Edrychwch yn ofalus cyn i chi ddechrau.

## Beth i'w gynnwys:

- Fel arfer, mae cylchoedd gorchwyl yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:
    - Enw'r Bartneriaeth Fwyd
    - Nodau / Pwrpas y Bartneriaeth Fwyd
    - Aelodaeth
    - Strwythur y Grŵp Llywio (e.e. uchafswm o ran nifer; cynrychiolwyr o wahanol sectorau, beth sy'n ddisgwyliedig o Aelodau'r Grŵp Llywio)
    - Gwneud Penderfyniadau
    - Datrys Gwrthdaro
    - Penodi Cadeirydd
    - Trefniadau cyfarfodydd
    - Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer cylchoedd gorchwyl

- Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol cynnwys adran yn eich cylch gorchwyl sy'n manylu ar **werthoedd ac egwyddorion** eich Partneriaeth Fwyd. Mae Rhwydwaith Bwyd Wells er enghraifft yn rhestru ei werthoedd a'i egwyddorion yn y cylch gorchwyl :

    **Gwerthoedd**: Angerddol; Cynhwysol; Cydweithredol; Ysbrydoledig; Canolbwyntio ar Atebion; Herio'r *Status Quo*; Dathlu a Hwyl.

    **Egwyddorion**: Er budd y cyhoedd; Annibynnol; Atebol; Tryloyw; Moesegol; Yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion o flaenoriaeth; Anelu at effaith fuddiol barhaol.

- Os ydych eisiau gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw gallwch roi'r manylion hyn yn eich Cylch Gorchwyl. Er enghraifft, efallai y byddwch yn penderfynu:

    → cyhoeddi eich cyfrifon blynyddol;
    → cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol;
    → cael canran o'ch pwyllgor llywio neu fwrdd wedi'u hethol o fewn yr aelodaeth.

• Mae'n werthfawr defnyddio eich Cylch Gorchwyl i amlinellu'r math o sefydliad ydych chi.

## Cyflwyniad

- Mae'r canllaw hwn yn cynnig canllawiau am broses a all eich helpu i ddatblygu eich Cylch Gorchwyl ar gyfer Grŵp Llywio'r Bartneriaeth. Gallai hyn yn ei dro fod yn sail ar gyfer rhannu a chytuno ar Gylch Gorchwyl y Bartneriaeth gyfan.
- Bydd y graddau rydych chi'n defnyddio proses [arolwg cylch gorchwyl ](gweler adnodd) o bersbectif unigol ac **yna gweithdy Cylch Gorchwyl** cyfranogol (isod) yn dibynnu ar gymeriad a maint eich Grŵp Llywio.

  Efallai y bydd **grwpiau llai, cydlynol** sydd eisoes wedi arfer gweithio gyda'i gilydd yn gallu trafod yn anffurfiol a dod o hyd i gonsensws ar y themâu allweddol a awgrymir mewn 1 neu 2 gyfarfod heb fod angen yr arolwg a'r gweithdy.

  Gallai **grwpiau mwy o faint, mwy amrywiol** ag ystod eang o safbwyntiau elwa'n fawr o gael arolwg a gweithdy i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn gwbl gyfranogol a democrataidd.

- Mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar 4 **thema allweddol** sy'n ymwneud â datblygu Cylchoedd Gorchwyl, sydd wedi deillio o brofiad o weithio gyda gwahanol aelodau SFP
- Mae'r themâu hyn yn sail ar gyfer yr **arolwg Cylch Gorchwyl** rhagarweiniol i ganfod ffeithiau yn ogystal â'r strwythur ar gyfer y **gweithdy cyfranogol** sydd wedi'i hwyluso sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg.
- Y **pedair thema** yw

  1. **Rôl y Grŵp Llywio**
     Beth yw prif bwrpas y Grŵp Llywio?

  2. **Sut rydych chi eisiau i aelodau'r Grŵp Llywio ymddwyn**
     Pa egwyddorion y dylid eu mabwysiadu i siapio sut mae aelodau'r Grŵp Llywio yn ymddwyn tuag at ei gilydd?

  3. **Sut rydych chi eisiau rhedeg y Grŵp Llywio**
     Sgiliau allweddol, gweithdrefnau aelodaeth, disgwyliadau, y Cadeirydd etc.

  4. **Beth rydych eisiau ei wneud am gyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**
     Protocolau a chyfrifoldebau

## Beth i'w wneud

- Yn ddelfrydol, dylai'r broses gael ei harwain a'i hwyluso gan Gydlynydd y Bartneriaeth. Fel arall, dewiswch aelod o'r bartneriaeth neu'r Grŵp Llywio sydd â phrofiad o arolygon a/neu brofiad o hwyluso
- Dosbarthwch yr arolwg, drwy ddefnyddio adnodd taenlen Excel yr [Arolwg Cylch Gorchwyl], o leiaf 2 wythnos cyn y gweithdy ac i roi digon o amser i ddadansoddi allbynnau allweddol i fwydo i mewn i'r gweithdy
- Caniatewch o leiaf hanner diwrnod i redeg y gweithdy – gan gydnabod y gall fod angen mwy nag un cyfarfod i gwmpasu pob un o'r 4 thema.

# Rhaglen Gweithdy Cylchoedd Gorchwyl

## 1. Croeso a Chyflwyniad

- Croeso
- Pwrpas ac amcanion y sesiwn:
  - → Pwyslais ar lywodraethu
  - → Cryfhau gweithio mewn partneriaeth
  - → Drafftio'r Cylch Gorchwyl
- Sut fydd yn gweithio:
  - → Trefnwch ac eglurwch y ffordd rydych chi am wneud pethau
  - → Penderfynwch ar eich rheolau a'ch gweithdrefnau eich hun
  - → Y dull a ddefnyddir gyda Phartneriaethau SFC eraill
  - → Cymhwyswch hyn i'ch cyd-destun eich hun
  - → Strwythur y gweithdy sy'n seiliedig ar yr **AROLWG CYLCH GORCHWYL** a anfonwyd yr wythnos ddiwethaf
  - → Mae ymatebion i'r arolwg yn cynnig man cychwyn am drafodaeth – dod o hyd i gonsensws
- Disgwyliadau:
  - → Parchwch farn eich gilydd
  - → Does dim atebion cywir ac anghywir
  - → Anelwch at gael consensws ond caniatewch ar gyfer anghytuno
  - → Anelwch i'w gwblhau mewn un gweithdy hanner diwrnod gan gydnabod y gall fod angen mwy o amser.

## 2. Pwy yw pwy

- Mynd o amgylch yn gyflym
  - → Pwy ydych chi
  - → Eich rôl yn y Grŵp Llywio/Partneriaeth

## 3. Trafodaeth am y Cylch Gorchwyl

- Bydd y gweithdy yn seiliedig ar 4 thema a chwestiynau'r arolwg:

  1. **Rôl y Grŵp Llywio**
  2. **Sut rydych chi eisiau i aelodau'r Grŵp Llywio ymddwyn**
  3. **Sut rydych chi eisiau rhedeg y Grŵp Llywio**
  4. **Beth rydych eisiau ei wneud am gyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Ar gyfer rhai themâu, mae'r arolwg yn dangos bod consensws cryf yn barod
- Angen cadarnhau hynny – yn weddol gyflym gobeithio!
- I eraill mae gwahanol farn a safbwyntiau y byddwn yn eu trafod a gobeithio y byddwn yn mynd i'r afael â nhw yma drwy:
  - → Rannu persbectif
  - → Egluro gwahaniaethau barn
  - → Chwilio am dir cyffredin
  - → Penderfynu sut i ddelio ag anghytundeb

## Thema 1: Rôl y Grŵp Llywio

**Adborth o ymatebion yr arolwg:**
- Pwrpas
- Swyddogaethau
- Perthynas â'r Bartneriaeth

**Trafodaeth:**
- A oes unrhyw ymatebion yn gwrth-ddweud ei gilydd?
- A oes unrhyw ymatebion yn aneglur?
- A oes unrhyw un yn anghytuno ag unrhyw un o'r ymatebion? Os felly – pam?

**Os oes consensws gall y rhan hon o'r Cylch Gorchwyl gael ei chadarnhau gan y Bartneriaeth ehangach.**
- A oes anghytundeb o hyd?
- Os oes, a yw'r anghytundeb yn sylweddol – un na ellir ei ddatrys? Neu a allai pobl fyw ag ef?

**Os na – mae angen trafod y mater gyda'r Bartneriaeth ehangach.**

## Thema 2: Ymddygiad y Grŵp Llywio

**Adborth o ymatebion yr arolwg:**
- Egwyddorion
- Gwerthoedd

**Trafodaeth:**
- A oes unrhyw ymatebion yn gwrth-ddweud ei gilydd?
- A oes unrhyw ymatebion yn aneglur?
- A oes unrhyw un yn anghytuno ag unrhyw un o'r ymatebion? Os felly – pam?

**Os oes consensws gall y rhan hon o'r Cylch Gorchwyl gael ei chadarnhau gan y Bartneriaeth ehangach.**
- A oes anghytundeb o hyd?
- Os oes, a yw'r anghytundeb yn sylweddol – un na ellir ei ddatrys? Neu a allai pobl fyw ag ef?

**Os na – mae angen trafod y mater gyda'r Bartneriaeth ehangach.**

## Thema 3: Sut rydych chi eisiau rhedeg y Grŵp Llywio

**Adborth o ymatebion yr arolwg:**
- Sgiliau (neu rolau)
- Gweithdrefn aelodaeth y Grŵp Llywio
- Yr hyn sy'n ddisgwyliedig o'r aelodau
- Rôl y Cadeirydd
- Gweithdrefn benodi'r Cadeirydd

**Trafodaeth:**
- A oes unrhyw ymatebion yn gwrth-ddweud ei gilydd?
- A oes unrhyw ymatebion yn aneglur?
- A oes unrhyw un yn anghytuno ag unrhyw un o'r ymatebion? Os felly – pam?

**Os oes consensws gall y rhan hon o'r Cylch Gorchwyl gael ei chadarnhau gan y Bartneriaeth ehangach.**
- A oes anghytundeb o hyd?
- Os oes, a yw'r anghytundeb yn sylweddol – un na ellir ei ddatrys? Neu a allai pobl fyw ag ef?

**Os na – mae angen trafod y mater gyda'r Bartneriaeth ehangach.**

### Thema 4: Cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau

**Adborth o ymatebion yr arolwg:**

- Penderfyniadau i'r Grŵp Llywio eu gwneud
- Penderfyniadau i'r Cydlynydd a'r rheolwr llinell
- Penderfyniadau ariannol
- Cworwm
- Protocol cyfarfodydd
- Protocol Gweithgor (is-grŵp)

**Trafodaeth:**

- A oes unrhyw ymatebion yn gwrth-ddweud ei gilydd?
- A oes unrhyw ymatebion yn aneglur?
- A oes unrhyw un yn anghytuno ag unrhyw un o'r ymatebion? Os felly – pam?

**Os oes consensws gall y rhan hon o'r Cylch Gorchwyl gael ei chadarnhau gan y Bartneriaeth ehangach.**

- A oes anghytundeb o hyd?
- Os oes, a yw'r anghytundeb yn sylweddol – un na ellir ei ddatrys? Neu a allai pobl fyw ag ef?

**Os na – mae angen trafod y mater gyda'r Bartneriaeth ehangach.**

## 4. Camau nesaf

- Beth sy'n digwydd i allbynnau'r sesiwn hon?
- Pa benderfyniadau y gellir eu rhoi i'r Bartneriaeth i'w gwirio/cytuno arnynt
- Pa benderfyniadau sydd angen eu trafod ymhellach gyda'r Bartneriaeth?
- Ydych chi'n hapus bod y cylchoedd gorchwyl drafft hyn yn cwmpasu'r Grŵp Llywio a'r Bartneriaeth?

## 5. Casgliadau a safbwyntiau terfynol

- Mynd o amgylch y grŵp yn gyflym i glywed safbwyntiau terfynol: penawdau, uchafbwyntiau, busnes sydd heb ei gwblhau.